Ffair Haf Ysgol Penrhyn-coch

Cynhaliwyd ffair flynyddol Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penrhyn-coch nos Wener, 9 Mehefin ac unwaith eto cafwyd ffair lwyddiannus iawn. Fe'i hagorwyd gan y cyn-brifathro, Mr R T Evans, ac fe'i croesawyd yn ôl yn wresog gan ei gyn-ddisgyblion a'u rheini. Pwysleidiodd Mr Evans fod gennym gyfrifoldeb a dyletswydd i warchod ein hiaith. Derbyniwyd rhodd anrhydeddus ganddo tuag at gronfa'r ysgol.

Bu'r tywydd yn garedig wrthym eleni a chafodd y plant sbri gyda'r gemau tu allan, a hwyl arbennig yn reidio'r ferlen a'r beic modur. Diolch i'r rhai a drefnodd y gweithgareddau ac i Mr D Parry, Bont-goch am roi benthyg ei ferlen inni yn rhad ac am ddim.

Roedd y stondinau niferus yn llawn nwyddau a bwydydd danteithiol. Ein diolch i'r rhai a fu'n brysur yn paratoi'r stondinau ac i'r rhai a gyfrannodd atynt. Cafwyd nifer o rafflau a chystadlaethau amrywiol yn ogystal. Enillydd y "rhaglen lwcus" oedd Mrs Bethan Davies, Glanceulan, a enillodd focs o ffrwythau. Miss Ceris Humphreuys oedd prif enillydd y raffl fawr. Diolch i gyfeillion yr ysgol a phawb o'r rheini a gyfrannodd wobrau hael i'r raffl ac i'r holl gystadlaethau.

Codwyd £560 ac fe'i defnyddir i brynu offer i adran y babanod.